

# Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Caerdydd

## Adroddiad Blynyddol ar Adolygu Dyluniadau

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

- Mae'r grŵp yn cynnwys y Tîm Creu Lleodd a Swyddogion Rheoli Datblygiad sy'n prosesu ceisiadau cynllunio perthnasol.
- Cyfarfu'r grŵp Adolygu Dyluniadau 33 o weithiau yn 2019.
- Mae'r grŵp yn adolygu ansawdd dyluniadau datblygiadau yn erbyn polisiâu dylunio mewn cynlluniau datblygu lleol perthnasol, canllaw cynllunio atodol mabwysiedig a hefyd gyngor arall, gan gynnwys Nodyn Cyngor Technegol Rhif 12 - Dylunio sydd gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r broses fwyaf buddiol o adolygu yn dechrau ar gam cyn cais cynllunio, fel arfer gyda chynlluniau cysyniadol bras, sy'n caniatáu am drafodaeth agored a chadarnhaol am y strwythur, y raddfa, a'r cymeriad ynglŷn ag unrhyw ddyluniad sy'n dod i'r amlwg ac a all gael ei ddatblygu'n gyflym i ganiatâd manwl. Nod y broses yw helpu i lywio ffurf a chymeriad datblygiadau newydd yng Nghaerdydd mewn modd cadarnhaol er mwyn sicrhau gwelliannau ar y dyluniad a helpu ymgeiswyr i gael caniatâd ar gyfer datblygu yn rhwydd.
- Cofnodir y drafodaeth ac adroddir ar y sylwadau yn ôl i ymgeiswyr pan fo angen gwneud adolygiadau.
- Trafodwyd 119 o gynlluniau yn y cyfarfod yn ystod 2019, gan gynnwys:

### Churchlands Camau 1B ac

**1C:** Cynllun ar gyfer Redrow a ddyluniwyd gan Powell Dobson. Buom yn gweithio i sicrhau ansawdd dylunio gofod nodol allweddol yn y cyfnod.

### Churchlands Cam 3

Cynllun ar gyfer Cartrefi Kier hefyd gan Powell Dobson. Daeth y cam hwn i'r Adolygiad Dylunio ddwywaith. Nid oedd digon o fanylion yn y cyflwyniad cychwynnol ac felly fe wnaethom wthio am fwy o wahaniaeth yn yr ardal oedd cymeriad a hefyd syniadau mwy bywiog ar gyfer tirlunio. Cafodd y rhain eu gwireddu'n ddiweddarach, gan gynhyrchu cynllun da.

### Ysgol Uwchradd Fitzalan:

Adolygwyd cynllun newydd gan y Cyngor i ailddatblygu Ysgol Uwchradd Fitzalan ar safle cyfagos fel cais cyn ymgeisio. Cynhyrchodd y cynllun ychydig o faterion arwyddocaol, ar wahân i bryder ynghylch maint a safle parcio beiciau.



Churchlands Camau 1B ac 1C, Powell Dobson Architects



Ysgol Uwchradd Fitzalan, Austin Smith Lord

**Parkgate House a chyn Llys y Goron, Heol y Porth:**

Cynnig i ailddatblygu dau adeilad rhestredig a rhywfaint o dir cyfagos i greu gwesty newydd. Roedd yr adolygiad yn edrych ar sut roedd yr estyniad newydd yn cydfynd â chyd-destun sensitif, ac yn trafod sut i farcio'r cynllun i ddymchwel grisiau allweddol yn y dyfodol.



Gwesty Heol y Porth, Gaunt Francis

**Ailddatblygu Adnewyddiad Marchnad Tai ar Crofft Street:**

Ystyriwyd cyflwyniad diwygiedig ar gyfer y cynllun tai arloesol hwn, gan gynnwys sut roedd yn eistedd yn weledol o fewn cymeriad sefydledig yr ardal. Gofynnwyd am newidiadau i leddfu effaith cynllun eithaf llym ar y cychwyn.



Crofft Street Housing Rogers Stirk Harbour and Partners

**Hyb y Powerhouse, Maelfa:**

Adolygodd y cyfarfod estyniad i Ganolfan y Powerhouse ym Maelfa. Ceisiwyd gwybodaeth ynglŷn â beth oedd y ffordd orau o adleoli cyfleuster chwarae ar y safle. Holon ni hefyd am raddfa, safle a thirlunio'r meysydd parcio arfaethedig gerllaw.



Hyb y Powerhouse, Maelfa Roberts Limbrick Architects

### **Romilly Crescent a Llandaff**

**Road:** Adolygwyd cynllun i ailddatblygu safle o fewn calon Pontcanna yn gynhwysfawr gyda datblygiad defnydd cymysg newydd, yn canolbwyntio ar iard ddomestig newydd. Gwnaethom sicrhau mân welliannau i'r cynllun er mwyn sicrhau bod safonau amwynder yn rhesymol mewn sefyllfa drefol dynn.



Romilly Crescent a Llandaff Road Chris Waterworth Architects

### **Cynllun Byw'n Annibynnol i Bobl Hŷn ym Maelfa:**

Ailddatblygu hen orsaf heddlu i ddarparu bloc newydd sy'n lletya pobl oedrannus sy'n byw'n annibynnol gyferbyn â thŵr Maelfa a adnewyddwyd yn ddiweddar. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfleusterau cymunedol a manau ar gyfer pobl sy'n byw yn y ddau adeilad.



Bloc Byw'n Annibynnol Maelfa Austin Smith Lord

### **Hen Ganolfan Addysg a**

**Chymunedol Llaneirwg:** Yn seiliedig ar friff a gynhyrchwyd gan y Tîm Creu Lleoedd, mae'r cynnig ar gyfer bloc llety newydd i bobl oedrannus wedi'i groesawu'n gyffredinol fel ychwanegiad mentrus i'r ganolfan gymdogaeth.



Hen Ganolfan Addysg a Chymunedol Llaneirwg C2J Architects

### **48 - 54 Heol y Plwca:**

Cynnig ar gyfer 48 o fflatiau fforddiadwy un a dwy ystafell wely a 2 uned fasnachol ar gornel Heol y Plwca a Vere Street, a adeiladwyd gan ddefnyddio techneg adeiladu pren hynod arloesol gyda wyneb patrwm brics a ystyriwyd yn ofalus. Yr uchelgais yw cynnwys ffasâd gwyrdd.



**48 - 54 Heol y Plwca**  
Powell Dobson Architects

Mae'r broses adolygu dyluniadau wedi darparu sylwadau ymatebol ar ddyluniadau'r cynigion ar gam cyn cais a cham y cais i helpu i lywio ffurf a chymeriad datblygiadau newydd yng Nghaerdydd mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i gael caniatâd datblygu. Mae'r broses wedi darparu adolygiadau o gynlluniau yn gyson er mwyn cyflawni gwelliannau ar ystod eang o faterion dylunio maestrefol, pensaernïol, tirlunio a pheirianeg.

Ceir cyngor ar yr hyn sy'n ddyluniad da a gwael mewn canllaw polisi dylunio cenedlaethol, Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd a hefyd yng nghanllaw cynllunio atodol mabwysiadedig Caerdydd. Gellir cael rhagor o gyngor gan dîm Creu Lleodedd ar y cyfeiriad e-bost isod.

*Defnyddir delweddau yn yr adroddiad hwn i ddangos ystod y cynlluniau a adolygwyd gan y gwasanaeth ar gamau amrywiol o'u cynnydd. Nid yw eu cynnwys yn dangos cefnogaeth i ddatblygiad gan Gyngor Caerdydd nac yn ceisio niweidio'r broses gwneud penderfyniadau cynllunio arferol.*

**Fersiwn: 5.0**  
**28 Mai 2020**

**Cyswllt:** [design@caerdydd.gov.uk](mailto:design@caerdydd.gov.uk)